

Rolau a Chyfrifoldebau

Awdurdodau Cyfansoddol/Cronfeydd Unigol

Yn ychwanegol at reoli ei rwymedigaethau ei hun, pennu ei gyfraniadau ei hun fel cyflogwr a gweinyddu ei bensiynau:

- Penderfyniadau'r strategaeth fuddsoddi
 - Dyraniad asedau strategol
 - Datganiad Strategaeth Fuddsoddi/Datganiad Strategaeth Gyllido
 - Credoau buddsoddi
 - Dirprwyo penderfyniadau'r rheolwr buddsoddi i'r Gronfa
- Monitro/Adrodd
 - Monitro perfformiad buddsoddi ei bortffolio ei hun
 - Herio'r gronfa os yw rheolwyr buddsoddi yn tanberfformio
- Llywodraethu
 - Dal y gronfa i gyfrif (e.e. os nad yn hapus â pherfformiad yr is-gronfa, gofyn am adolygiad)
 - Cynrychioli'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion
- Gweithredol/Busnes fel arfer
 - Amseriad eich trosglwyddiadau eich hun (cychwynnol a pharhaus) a chyfnewid rhwng is-gronfeydd
 - Gofal dros asedau nad ydynt mewn cronfa
 - Cyfarwyddiadau i fuddsoddi, adbrynu, cyfnewid i mewn neu rhwng is-gronfeydd y gronfa
- Polisiâu*
 - Polisi ailgloriannu
 - Buddsoddi cyfrifol
 - Polisi Pleidleisio
 - Benthycia stoc – beth sydd i mewn/allan – presennol/dyfodol
 - Polisi/rheolau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith
 - Strategaeth troshaenu arian cyfred

* Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried i ba raddau y dylai rhai polisiâu neu ganllawiau fod yn gymwys ar lefel y gronfa er mwyn osgoi, lle bo'n bosibl, creu is-gronfeydd ychwanegol i ddarparu ar gyfer gwahanol bolisiâu.

Cyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu

- Llywodraethu
 - Cydymffurfio â Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (ymunwyr/gadawyr/dyrannu costau)
 - Dal y Gweithgor Swyddogion i gyfrif
 - Goruchwylio'r holl asedau dan reolaeth y gronfa (gan gynnwys buddsoddiadau goddefol)
 - Cynllunio strategol, cynllun adnoddau, cynllun busnes a chyllideb ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Perthynas y gweithredwr
 - Cytuno ar fanyleb ar gyfer Gweithredwr a goruchwylio caffael
 - Argymell Gweithredwr 3^{ydd} parti i Awdurdodau Cyfansoddol
 - Monitro perfformiad y Gweithredwr
 - Argymell terfynu'r Gweithredwr, estyniad neu gyflenwr newydd i Awdurdodau Cyfansoddol ar ddiwedd y contract
 - Mewnbwn i'r ymgynghoriad gan y Gweithredwr ar faterion megis adolygiadau Rheolwyr Buddsoddi a chynlluniau trosglwyddo asedau
 - Cytuno ar unrhyw newidiadau i'r Cytundeb Gweithredwr, Cytundebau Lefel Gwasanaeth neu arferion, gweithdrefnau a phrotocolau cytûn ("rheoli newid")
- Penderfyniadau ar lefel y gronfa
 - Rhoi cyfarwyddyd i'r Gweithredwr ar yr is-gronfa gychwynol a'r gofynion mandad
 - Rhoi cyfarwyddyd i'r Gweithredwr sefydlu is-gronfeydd ychwanegol neu ddod â'r rhai presennol i ben
 - Rhoi cyfarwyddyd i'r Gweithredwr ar y gofynion o ran unrhyw gyfryngau cronni nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Contractiol Awdurdodedig
 - Cymeradwyo cynllun pontio ar lefel uchel a gynigir gan y Gweithredwr
 - Penderfyniadau ar sut i gael mynediad i seilwaith
 - Cytuno ar unrhyw bolisiau cyffredin (e.e. benthycu stoc/pleidleisio)
 - Penderfynu ar ymgynghorwyr a chyflenwyr eraill i Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Cyfathrebu e.e. llywodraeth a gweision sifil, y wasg, ac ati
- Gwerth yr arian

Yr Awdurdod Cynnal a'r Tîm Ochr Cleient

- Ysgrifenyddiaeth y Cyd-bwyllgor
- Arwain o ran caffael gwasanaethau cronfa (e.e. ymgynghorwyr, ac ati.)
- Tîm ochr cleient ar gyfer:
 - Rheoli contractau Gweithredwr
 - Monitro perfformiad y Gweithredwr yn erbyn cytundebau lefel gwasanaeth a phrif ddangosyddion perfformiad
 - Cyswllt o ddydd i ddydd gyda'r Gweithredwr a'r sawl sy'n darparu ei wasanaethau sefydlu, ymgynghorol ac anymgynghorol, yn enwedig ar faterion sy'n effeithio ar yr holl gronfeydd / buddsoddwyr yn y gronfa
 - Cydgysylltu ag ymgynghorwyr eraill
 - Adrodd ar berfformiad y Gweithredwr i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu
 - Gweithredu ac adrodd ar gynnydd y Cynllun Busnes y cytunwyd arno â'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion
 - Dadansoddiadau, cymorth ac adroddiadau eraill ar gyfer y Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu fel y bo'r angen.
Esiamplau:
 - opsiynau ar gyfer defnyddio asedau amgen/caeth gan gynnwys seilwaith
 - polisiâu'r gronfa o ran materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol
 - goblygiadau newid rheoleiddiol a'r camau gofynnol e.e. MiFID
 - opsiynau ar ddiwedd contract y Gweithredwr – ymestyn, ailendro, adeiladu a pherchen
 - NI fydd y tîm ochr cleient yn 'ddyn yn y canol' ar gyfer yr holl gyfarwyddiadau i'r Gweithredwr gan awdurdodau gweinyddu unigol (buddsoddwyr a chleientiaid y Gweithredwr) e.e. taliadau i'r cronfeydd buddsoddi, adbryniadau, cyfarwyddiadau cyfnewid; gallant i gyd gael eu gwneud yn syth i'r Gweithredwr

Cyfrifoldebau'r Gweithredwr (*Link Fund Solutions*)

Cyfrifoldebau craidd

- Sefydlu a gweithredu Cynllun Contractiol Awdurdodedig ac is-gronfeydd at ddefnydd cronfeydd CPLIL Partneriaeth Pensiwn Cymru yn unig.
- Cael yr holl gymeradwyaethau rheoliadol angenrheidiol
- Gweinyddu'r Gronfa
- Holl swyddogaethau a reoleiddir ac ac adrodd
- Penodi rheolwyr buddsoddi a chontract
- Dewis a chaffael gwasanaethwyr asedau (asiant trosglwyddo/ ymddiriedolwr/ ceidwad/ cyfrifeg)
- Cynnig strwythur is-gronfa
- Monitro rheolwyr ac adolygu ac chwiliadau rheolwyr ac argymhellion (gweithio gyda chynghorwyr buddsoddi)
- Rheoli trosglwyddo asedau
- Gweithredu polisi ailgloriannu'r gronfa unigol